Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2008.

Yn flynyddol bellach, gwelir y Wobr arbennig yma fel cyfle i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Mae'r wobr yn cael ei gweinyddu gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac ym mis Rhagfyr, bob blwyddyn, gosodir yr her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Mae pum categori sef:-

- person ifanc dan 25,
- oedolyn,
- gwirfoddolwr gwyrdd,
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol.

Eleni, derbyniwyd 198 o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd.
Yr ydym yn falch iawn fod un o'r naw yn enillydd cenedlaethol sef Mr James Hewett sydd yn Ymddiriedolwr gyda Chwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru Cyf.

Categori Ymddiriedolwr

1. James Hewett sydd yn gwirfoddoli gyda Rheilffordd Ucheldir Cymru Cyf.



Mae James yn gadeirydd Rheilffordd yr Ucheldir Cyf, ac mae yn y swyddfa bron bob dydd - yn gwneud trefn ar y gwaith papur, edrych ar ôl ymwelwyr, gwneud yn siŵr fod offer pwrpasol ar gael ac yn barod, trefnu rota i wirfoddolwyr ayb. Mae ei gyfraniad wedi bod yn allweddol i sawl agwedd o ddatblygiad diweddar y mudiad, gan gynnwys cynyddu'r nifer o swyddi cyflogedig, chwarae rhan fwy cadarnhaol yn y gymuned, a chyfrannu i'r diwydiant ymwelwyr. Un nodwedd arbennig yw ei amynedd a'i gefnogaeth i wirfoddolwyr ifanc - mae wedi gwario oriau yn trosglwyddo peth o'i wybodaeth am wahanol bethau i wirfoddolwyr ifanc - o fodelau rheilffordd i waith cartref Mathemateg! Yn ystod y pum mlynedd mae wedi bod yn gysylltiedig â'r mudiad, mae ei frwdfrydedd a'i allu i symbylu eraill wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r cwmni.
Wedi ei enwebu gan Chris Dearden – cyd-weithiwr.

Categori Pobl Ifanc

1. Ffion Parker yn gwirfoddoli gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd.

Daw Ffion o Lan Ffestiniog, a dechreuodd wirfoddoli gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd yn 2006. Er ei bod yn gweithio'n llawn amser, mae'n llwyddo i gael amser i wirfoddoli ar benwythnosau neu fin nos, ac mae'r tasgau mae hi'n eu cyflawni fel gwirfoddolwraig yn cynnwys cefnogi merched a'r plant mewn gwahanol ffyrdd - ee eu cludo i apwyntiadau, bod yn y lloches, bod ar alwad, mynychu cyfarfodydd. Mae hi'n berson cydwybodol iawn sy'n ddibynnol, ac yn barod i helpu eraill bob amser.
Wedi ei henwebu gan Gwenan Paewai – Swyddog Gwirfoddoli, Cymorth i Ferched De

Categori Oedolyn.

1. John Boulter yn gwirfoddoli gyda 'Freewheelers Club" Tywyn



Mae cyfraniad John Boulter i Glwb Freewheelers Tywyn wedi bod yn amhrisiadwy. Mae'r Clwb yn darparu cludiant i bobl anabl lleol - gwasanaeth hanfodol mewn ardal wledig fel Tywyn, ac mae John yn hael iawn yn rhoi ei amser rhydd i yrru, cynnal a chadw a glanhau'r bws mini, yn ogystal â gweithredu fel trysorydd y Clwb. Mae John mor barod ei gymwynas er budd eraill, ac yn llawn deilyngu cydnabyddiaeth.

**** Wedi ei enwebu gan Mr Stan Diston – Cadeirydd y Clwb.***

2. Cheryl Dobson yn gwirfoddoli yn Ysgol Ne-

Mae Cheryl yn helpu yn y dosbarthiadau yn Ysgol Nefyn **bob** dydd ers dros dair blynedd. Mae 'Anti Cheryl' yn mynd gyda'r plant i astudio'r gymuned, helpu gyda grwpiau darllen, mynd gyda'r plant i nofio, helpu gyda'r plant bach. Mae'n cyrraedd yr ysgol cyn 9.00 bob dydd, ac yn gadael am 3.15pm, ac ar ben hynny mae hi'n helpu gyda'r nosau - Ffair Haf, teithiau cerdded ayb. Mae'r plant yn addoli 'Anti Cheryl' gyda'i gwen a'i charedigrwydd diddiwedd, a'r ysgol yn cydnabod eu dyled iddi.

****Wedi ei henwebu gan Glenys Williams - Pennaeth Ysgol Nefyn.***

3. Philip Horwood yn gwirfoddoli fel trysorydd i 5 mudiad yn ardal Pwllheli.

Mae Philip Horwood yn gweithio fel cyfrifydd ym Mhwllheli, ac yn fodlon iawn i rannu ei sgiliau a'i wybodaeth broffesiynol gyda grwpiau gwirfoddol ym Mhwllheli. Mae'n drysorydd i CAB Gwynedd, Cangen Cymdeithas Alzheimer's Gogledd Orllewin Cymru, Clwb Rotari Pwllheli, Clwb Hwylio Pwllheli a changen Dwyfor o NSPCC Eryri. Mae'n cefnogi pob un o'r mudiadau yn gyson, ac ar gael ar y ffôn i roi cyngor i swyddogion eraill oddi mewn i'r mudiadau. Mae'n gweithio'n dawel a diymhongar, ac yn esiampl wych o berson proffesiynol yn cyfrannu o'i arbenigedd i'r sector gwirfoddol.

**** Wedi ei enwebu gan Siân Williams – Partner busnes.***

4. Mrs Peggy Millard yn gwirfoddoli gyda 'The Over 60s Club' Tywyn.

Pan ddaeth Mrs Peggy Millard i fyw i Dywyn ym 1984, chwaraeodd ran allweddol mewn sefydlu Clwb ar gyfer pobl hyn yn yr ardal. Erbyn hyn, mae'r Clwb yn weithgar iawn ac yn cyfarfod bob yn ail brynhawn dydd Gwener - gyda rhyw weithgaredd wedi ei drefnu gan Peggy - siaradwr gwadd, cwis neu adloniant o ryw fath. Drwy gyfarfod yn rheolaidd, gwerthu tocynnau raffl mae'r Clwb yn llwyddo i godi arian tuag at y gost o Barti Nadolig, neu Ginio Haf. Mae Peggy hefyd yn trefnu wythnos o wyliau i'r aelodau mewn rhyw dref glan y môr pob blwyddyn, a heb y trefniant hwn go brin y buasai nifer o'r aelodau sydd rhwng 60 a 90 oed yn cael unrhyw fath o wyliau. Mae pawb yn Nhywyn yn adnabod Peggy, ac os oes ganddynt broblem, maent yn gwybod at bwy i droi !!!

**** Wedi ei henwebu gan Mr E S Harris - Clwb Probus Tywyn, a gŵr un o'r aelodau.***

5. Sara Roberts yn gwirfoddoli gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd

O Benrhyndeudraeth y daw Sara, a dechreuodd wirfoddoli gyda Chymorth i Ferched yn Chwefror 2006. Mae hi wedi cyflawni amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith yn y lloches, gwaith gweinyddol, cyfrannu at weithrediad a datblygiad y mudiad yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth yn y cartref. Mae hi'n ysbrydoliaeth i eraill i wirfoddoli i'r mudiad.
**** Wedi ei henwebu gan Gwenan Paewai – Swyddog Gwirfoddoli, Cymorth i Ferched De Gwynedd.***

Categori Grŵp

1. Cyfeillion Plas Glyn y Weddw

Mae Oriel Plas Glyn y Weddw yn ganolfan gelfyddydol yng nghalon ei chymuned ym Mhenrhyn Llyn. Mae'r 'Plas' yn ased pwysig iawn i'r ardal, ac mae cyfraniad gwirfoddolwr - 68 ohonynt - yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y "Plas", a heb eu hymroddiad hwy - ni fyddai'r Oriel yn bodoli. Mae rhestr y tasgau a gyflawnir gan wirfoddolwyr neu 'Gyfeillion y Plas" yn hir ac amrywiol iawn gan gynnwys :-gwaith derbynfa, gweithio yn y siop, gweithio yn yr ardd, adnewyddu (sy'n cynnwys sandio, paentio, a glanhau), cynorthwyo ar nosweithiau agoriadol, trefnu cyrsiau a theithiau, trefnu rota ar gyfer gwirfoddolwyr, cadw trefn ar y bas-data, codi arian a llawer mwy……
**** Wedi eu henwebu gan Mr Gwyn Jones-Oriel Plas Glyn y Weddw,***

Elinor Ellis yn derbyn tystysgrif ar ran Cyfeillion Plas Glyn y Weddw.

2. Y Ffynnon

Criw o bedwar person ifanc sydd wedi bod yn flaengar yn torri'r tawelwch am bwnc anodd sef HIV / Aids ymysg pobl ifanc. Wedi derbyn hyfforddiant am HIV gan Gymorth Cristnogol a Dr Olwen Williams, mae'r criw wedi bod yn llunio gweithdai a rhedeg sesiynau ar gyfer pobl ifanc eraill. Maent wedi targedu ardaloedd difreintiedig gyda'u neges, ac maent wedi ymgyrchu am ragor o addysg am HIV ym Mhrydain a thros y byd, gan lwyddo i drefnu deiseb o 5000 o enwau arni ym Mehefin y llynedd. Yn Hydref 2007, cawsant wahoddiad i fynd i Sierra Leone i gyd-weithio gyda phartneriaid ifanc yno sy'n addysgu cyfoedion am HIV. Maent yn griw amryddawn, ysbrydoledig sydd wedi ymroi'n llwyr i'r gwaith o wneud gwahaniaeth ym maes HIV /Aids.
**** Wedi eu henwebu gan Mr Hywel Williams AS.***